Cyngor Abertawe
Swansea Council

# Swydd-ddisgrifiad

| Cyfarwyddiaeth: | | Gwasanaethau Cymdeithasol | |
|---|---|---|---|
| **Maes Gwasanaeth ac Adran:** | | Gwasanaethau i Oedolion | |
| **Rheolwr yr Uned:** | | Rheolwr Preswyl | |
| **Teitl y swydd:** | | Swyddog Gofal Preswyl | |
| **Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl:** | | SCW 40A | |
| **Rhif y Swydd:** | SS.2710 | **Gradd** | 6 |

| Crynodeb o'r Rôl | |
|---|---|
| **Yn atebol i'r:** | Rheolwr Uned |
| **Diben y Swydd:** | Gweithredu fel aelod o dîm o staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal a chymorth personol o safon uchel i bobl sydd yn byw mewn lleoliad gofal Preswyl. |
| **Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am y canlynol:** | 1. Ymgymryd â dyletswyddau gofal gyda defnyddwyr y gwasanaeth gan sicrhau bod gwerthoedd sylfaenol preifatrwydd ac urddas yn flaenllaw bob amser.<br><br>2. Bydd y Swyddog Gofal Preswyl yn derbyn cyngor, cymorth ac arweiniad gan y Tîm Rheoli yn yr Uned/Ganolfan.<br><br>3. Dylai'r Swyddog Gofal Preswyl dynnu sylw'r rheolwr perthnasol at unrhyw anghenion hyfforddiant.<br><br>4. Yn dilyn yr hyfforddiant disgwylir i staff ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau'r swydd gan gynnwys defnyddio'r cyfarpar symud a chodi yn ogystal â chynorthwyo gyda chynlluniau gwacáu yn unol â diogelwch tân os oes argyfwng.<br><br>5. Bydd y Swyddog Gofal Preswyl yn ymgymryd â gwaith allgymorth o fewn y gymuned, gan alluogi defnyddwyr y gwasanaeth i gael mynediad at gyfleusterau cymunedol.<br><br>6. Cysylltu â theuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr gofal eraill gan sicrhau bod proffil a phroffesiynoldeb yr Adran yn cael eu hadlewyrchu bob amser.<br><br>7. Tynnu sylw'r rheolwyr at unrhyw ddiffygion yn narpariaeth y gwasanaeth a chynnig awgrymiadau am sut y gall eu goresgyn. |

| | |
|---|---|
| | 8. Gweithio drwy gynlluniau adfer arfaethedig gyda defnyddwyr gan gadw cofnod manwl o ddatblygiadau.<br><br>9. Mynychu a chymryd rhan mewn trafodaethau sy'n gysylltiedig ag adolygiadau.<br><br>10. Bydd disgwyl i'r Swyddog Gofal Preswyl Dyddiol ymgymryd â chyfrifoldebau gweithwyr allweddol yn dilyn yr hyfforddiant priodol.<br><br>11. Bydd y dyletswyddau a dyrannir o bryd i'w gilydd yn addas ar gyfer gradd y swydd ac nad ydynt o natur sylweddol barhaus fel eu bod yn effeithio gradd y swydd.<br><br>12. Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ac felly mae'n rhaid i chi ddatgelu pob euogfarn droseddol a wnaed yn eich erbyn.<br><br>DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL<br><br>13. Ymgymryd â'r cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch o fewn rôl y rheolwr a'r cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch personol o fewn Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.<br><br>14. Cynorthwyo gyda'r datblygiad o fentrau, e.e. Buddsoddwyr mewn Pobl; Rheoli Perfformiad a Gwerthuso; Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ac ati.<br><br>15. Sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu gweithredu yn unol â Chyfle Cyfartal. |
| **Amgylchiadau Gwaith y Swydd**<br><br>Bydd deiliad y swydd yn: | 1. Cynorthwyo yn natblygiad mentrau e.e. Buddsoddwyr mewn Pobl, Rheoli Perfformiad a Gwerthuso, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ac ati.<br><br>2. Mae'n bosib bydd gofyn ar ddeiliad y swydd i gynorthwyo mewn digwyddiadau mawr ac argyfyngau lleol yn unol â Chynllun Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>3. Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ac felly mae'n rhaid i chi ddatgelu pob euogfarn droseddol a wnaed yn eich erbyn.<br><br>4. Mae'n bosib bydd y swydd yn cael ei throsglwyddo o un ardal i ardal arall yn ddibynnol ar yr angen. Does dim hawl i unrhyw gostau trosglwyddo na chostau amhariaeth gan fod disgwyl i unrhyw symudiad swydd fod o fewn y Sir.<br><br>5. Disgwylir i ddeiliad y swydd ddelio â materion sensitif/emosiynol, ymddygiad heriol a sefyllfaoedd anodd.<br><br>6. Disgwylir i ddeiliad y swydd godi a chario a symud defnyddwyr gwasanaeth wrth ofalu amdanaynt neu wrth iddynt deithio (e.e. defnyddwyr cadair olwyn).<br><br>7. Gall gynnwys darparu gofal o natur bersonol. |

# Manyleb Person

| Cyfarwyddiaeth: | | Gwasanaethau Cymdeithasol | |
|---|---|---|---|
| **Maes Gwasanaeth ac Adran:** | | Gwasanaethau i Oedolion | |
| **Rheolwr yr Uned:** | | Rheolwr Preswyl | |
| **Teitl y swydd:** | | Swyddog Gofal Preswyl | |
| **Teulu'r Swydd a Phroffil y Rôl:** | | SCW 40A | |
| **Rhif y Swydd:** | SS.2710 | **Gradd** | 6 |

| Maen Prawf y Rôl Rhif 1 | Addysg, Cymwysterau a Hyfforddiant |
|---|---|
| **Hanfodol** | • Profiad o weithio fel rhan o dîm mewn unrhyw leoliad.<br>• Yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol disgwylir i staff ymgymryd â'r ystod eang o gyfrifoldebau a ddaw gyda'r swydd, gan gynnwys defnyddio'r cyfarpar symud a chodi yn ogystal â chynorthwyo gyda chynlluniau gwacáu yn unol â diogelwch tân os oes argyfwng. |
| **Dymunol** | • NVQ/QCF ar lefel 2 mewn Gofal / Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu'n gyfwerth neu fod yn barod i weithio tuag at y cymhwyster perthnasol.<br>• Naill ai profiad personol neu brofiad gwaith o weithio gyda grŵp cleient sy'n cynnwys tasgau gofal personol. |
| **Tystiolaeth** | Rhaid dangos pob tystysgrif yn y cyfweliad er mwyn eu dilysu. |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 2** | |
| **Hanfodol** | • Y gallu i weithio fel rhan o dîm.<br>• Y gallu i dderbyn cyfarwyddiadau a chymryd cyfrifoldeb priodol.<br>• Yn dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol disgwylir i staff ymgymryd â'r ystod eang o gyfrifoldebau a ddaw gyda'r swydd, gan gynnwys defnyddio'r cyfarpar symud a chodi yn ogystal â chynorthwyo gyda chynlluniau gwacáu yn unol â diogelwch tân os oes argyfwng.<br>• Gallu dysgu trwy hyfforddiant.<br>• Gallu deall polisïau a gweithdrefnau'r Adran.<br>• Gallu uniaethu â defnyddwyr y gwasanaeth yn briodol.<br>• Gallu cyflwyno gwybodaeth ar ffurf ysgrifenedig. |
| **Dymunol** | Sgiliau craidd neu brofiad perthnasol o ddarparu gofal drwy gynllun cymorth/ gofal/ lles neu brofiad/ sgiliau cyfatebol. |
| **Tystiolaeth** | Ardystiad a/neu gofrestriad dilys/DPP. |
| **Maen Prawf y Rôl Rhif 3** | |
| **Hanfodol** | • Profiad hanfodol o ddarparu gofal a chefnogaeth uniongyrchol i bobl o fewn amgylchedd gofal. |

